NEWID DEFNYDD NAD OES ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO AR EI GYFER

Newid defnydd a ganiateir gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995:

O: A2 (gwasanaethau proffesiynol ac ariannol) lle mae gan eiddo ffenestr arddangos ar lefel y ddaear **i:** A1 (siop)

O: Gwerthu cerbydau modur **i:** A1 (siop)

O: A3 (bwyd a diod) **i:** A1 (siop)

O: A3 (bwyd a diod) **i:** A2 (gwasanaethau proffesiynol ac ariannol)

HEFYD Nid oes angen cais cynllunio ar gyfer newid defnydd yn yr amgylchiadau canlynol:

O: A1 **i** A1 ynghyd â fflat unigol uchod ac **o** A2 **i** A2 ynghyd â fflat unigol uchod.

Gellir newid y newidiadau hyn heb gais dim ond os yw'r rhan sydd yn fflat nawr wedi bod yn ddefnydd A1 neu A2 yn syth cyn iddi ddod yn fflat.

O: B1 (busnes) (cyfyngir caniatâd i 235 metr sgwâr o le llawr yn yr adeilad) **i:** B8 (storio a dosbarthu)

O: B2 (diwydiannol cyffredinol) **i:** B1 (busnes)

O: B2 (diwydiannol cyffredinol) (cyfyngir caniatâd i 235 metr sgwâr o le llawr yn yr adeilad) **i:** B8 (storio a dosbarthu)

O: B8 (storio a dosbarthu) (cyfyngir caniatâd i 235 metr sgwâr o le llawr yn yr adeilad) **i:** B1 (busnes)

Mae angen ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer newidiadau mawr mewn defnydd bob amser os yw'n ymwneud â chanolfannau difyrion, theatrau, iardiau sgrap, gorsafoedd petrol, siopau gwerthu ceir (ac eithrio newid sylweddol mewn defnydd o fannau gwerthu ceir i ddefnyddiau Dosbarth A1), busnesau tacsi a hurio ceir a hostelau.